Safonau Ansawdd Craidd

Cyhoeddwyd gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus

Tachwedd 2009

Unwyd Gwasanaeth Erlyn y Goron a'r Swyddfa Erlyniadau Cyllid a Thollau ym mis Rhagfyr 2009 i ffurfio'r prif wasanaeth erlyniad cyhoeddus yng Nghymru a Lloegr. Pennaeth y gwasanaeth hwnnw yw'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus. Mae'r Twrnai Cyffredinol yn atebol i'r Senedd am y gwasanaeth.

Mae'r gwasanaeth erlyn yn sefydliad cenedlaethol sy'n cynnwys nifer o Adrannau Gwaith Achos Arbenigol wedi'u lleoli mewn Pencadlysoedd, 42 o Ardaloedd daearyddol a CPS Uniongyrchol. Mae'r Adrannau Gwaith Achos Arbenigol yn delio ag achosion mwyaf cymhleth neu sensitif y gwasanaeth. Pennaeth pob Ardal ddaearyddol yw Prif Erlynydd y Goron ac mae'n cyfateb i ardal heddlu sengl, gydag un ar gyfer Llundain. CPS Uniongyrchol yw'r gwasanaeth cenedlaethol y tu allan i oriau sy'n gwneud penderfyniadau cyhuddo ar ran y 42 Ardal yng Nghymru a Lloegr. Yn ystod y 18 mis diwethaf, ail-strwythurwyd y gwasanaeth gyda'r 42 Ardal yn awr wedi'u rhannu'n nifer o grwpiau mwy, pob un yn cael ei arwain gan Gadeirydd Grŵp sy'n Brif Erlynydd y Goron yr Ardal fwyaf o fewn y Grŵp.

Yn y llyfryn hwn, defnyddir y term "erlynydd" i ddisgrifio aelodau'r gwasanaeth erlyn sy'n cael eu dynodi fel Erlynyddion y Goron; erlynyddion sy'n aelodau o'r Swyddfa Erlyniadau Cyllid a Thollau; ac Erlynyddion Cysylltiol sy'n cael eu dynodi yn unol ag adran 7A Deddf Erlyn Troseddau 1985 ac sy'n gweithredu eu pwerau yn unol â'r cyfarwyddiadau presennol a gyhoeddir gan y Cyfarwyddwr. Defnyddiwn y term "eiriolwr" i ddisgrifio erlynyddion a bargyfreithwyr neu gyfreithwyr annibynnol sy'n cynnal achosion mewn llys ar ein rhan.

Cefnogir yr erlynyddion gan Swyddogion Paragyfreithiol a Chynorthwy-wyr Paragyfreithiol sy'n gwneud llawer o'r gwaith angenrheidiol i weithredu eu penderfyniadau a gan Swyddogion Gweinyddol sy'n delio â'r camau angenrheidiol i sicrhau bod gwaith yn cael ei reoli'n effeithlon, fel olrhain cynnydd achosion, cyfateb deunyddiau sy'n dod i mewn i ffeiliau achos a chopïo ac anfon dogfennau allan.

CYFLWYNIAD

Rôl a phwrpas sylfaenol y Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) a'r Swyddfa Erlyniadau Cyllid a Thollau (RCPO) yw amddiffyn y cyhoedd, cefnogi dioddefwyr a thystion a sicrhau cyfiawnder.

Amddiffyn y cyhoedd: fel erlynyddion, mae gennym rôl hanfodol i ostwng lefel troseddu ac amddiffyn y cyhoedd. Byddwn yn weladwy ac yn atebol; yn gynrychioliadol ac amrywiol. Byddwn yn ymdrin yn agored a gonest gyda'r cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu. Bydd ein penderfyniadau'n cael eu hysbysu gan bryderon y cyhoedd.

Cefnogi dioddefwyr a thystion: byddwn yn galluogi, yn annog ac yn cefnogi cyfranogiad effeithlon dioddefwyr a thystion yn ystod pob cam o'r broses cyfiawnder troseddol.

Sicrhau cyfiawnder: byddwn yn sicrhau bod y bobl gywir yn gwneud y penderfyniadau cywir am erlyn ar yr amser cywir. Byddwn yn ymdrin yn deg, yn briodol ac yn gadarn gydag ymddygiad troseddol yn y dull mwyaf effeithlon ac effeithiol ac mewn modd agored fel bod y cyhoedd yn deall pam mae'r penderfyniadau wedi'u gwneud. Byddwn yn helpu i wneud system y llys mor effeithlon ac effeithiol ag sy'n bosibl. Byddwn yn parchu ac yn diogelu hawliau dynol pawb sy'n cael eu heffeithio gan ein penderfyniadau, gan gynnwys dioddefwyr, tystion, y rhai a ddrwgdybir a'r diffynyddion.

SAFONAU ANSAWDD CRAIDD

Fel erlynyddion, defnyddiwn bŵer ar ran y cyhoedd. Cynigiwn wasanaeth cyhoeddus y dylid ei gyflenwi yn unol â chyfres o **Safonau Ansawdd Craidd** ar gyfer y cyhoedd sy'n amlinellu ansawdd y gwasanaeth y mae gan y cyhoedd hawl ei ddisgwyl gan y rhai sy'n erlyn ar eu rhan. Maen nhw'n gymwys i bawb sy'n cyflenwi'r gwasanaeth erlyn cyhoeddus.

Mae'r safonau'n bwysig i ddioddefwyr, tystion, y rhai a ddrwgdybir a'r diffynyddion sy'n dibynnu ar erlynyddion i gyflawni eu dyletswyddau i safon uchel. Bydd yr heddlu, y llysoedd ac asiantaethau cyfiawnder troseddol eraill hefyd eisiau deall y safonau oherwydd eu bod yn dibynnu ar erlynyddion i gyflenwi gwasanaeth effeithlon ac effeithiol. Mae'r cyhoedd a'r rhai sy'n arolygu, archwilio ac yn ymchwilio i erlynyddion angen sicrwydd bod y safonau'n cynrychioli dulliau heriol ac effeithlon o gyflenwi gwasanaeth cyhoeddus pwysig a byddan nhw am ddal yr erlynyddion i gyfrif am eu cyflenwi.

Datblygwyd y safonau gan uwch ymarferwyr. Maen nhw'n dilyn arfer da ac yn adlewyrchu ein goblygiadau cyfreithiol a phroffesiynol. Rydyn ni wedi ymgynghori gydag erlynwyr ac ymarferwyr cyfiawnder troseddol eraill. Rydyn ni wedi gofyn am farn ein paneli cyfranogiad y gymuned ac yn gwneud y safonau ar gael i'r cyhoedd er mwyn i ni allu elwa o brofiad y rhai sy'n dod i gysylltiad â ni a'r cyhoedd ehangach sydd angen hyder ym mherfformiad eu herlynyddion.

Mae'r safonau'n ymwneud â'n prif feysydd gwaith sy'n cael yr effaith mwyaf ar y cyhoedd. Nid yw'n fwriad iddi fod yn rhestr orffenedig o'r holl bethau rydyn ni'n eu cyflawni yn ein gwaith achos. Maen nhw'n cynnwys datganiad o swyddogaethau erlynyddion a nifer o ddatganiadau penodol a chrynodol o wasanaeth safonol. Maen nhw'n cynrychioli edau ganolog ansawdd ddylai lifo drwy bopeth a wna'r gwasanaeth erlyn. Wrth gydymffurfio â nhw, dylem bob amser gyfathrebu gyda'n hasiantaethau partner a'r cyhoedd yn gwrtais, yn barchus ac yn broffesiynol. Disgwyliwn i'r cyhoedd, yn arbennig y rhai sy'n dod i gysylltiad â'r gwasanaeth erlyn, eu defnyddio, ynghyd â'n gwybodaeth perfformiad a gyhoeddwyd, i asesu pa mor dda rydyn ni'n perfformio.

Cefnogir y safonau gan ddogfennau mwy manwl sy'n ymwneud â phob agwedd o'n gwaith, gan gynnwys canllawiau ar sut i ddelio â mathau penodol o droseddu. Mae mwyafrif y dogfennau hyn ar gael ar ein gwefan (www.cps.gov.uk). Rydyn ni hefyd, pan fo'n briodol, wedi rhoi enghreifftiau gweithiedig i'n staff sy'n dangos gwaith o'r safon angenrheidiol.

Mae'n bwysig nodi bod dyletswydd cyfrinachedd ar y gwasanaeth o safbwynt rhai dogfennau y cyfeiriwyd atyn nhw yn y safonau; er enghraifft, y rhybuddion penderfyniadau a amlinellwyd yn safon 4.

Cefnogir y safonau gan gyfres o fesurau cyflenwi gwasanaeth a gyhoeddwyd fydd yn gosod y perfformiad a ddisgwylir ym mhob safon. Bydd y mesurau hyn yn defnyddio data perfformiad sydd wedi'u casglu fel arfer gan y gwasanaeth erlyn. Bydd unrhyw fesurau perfformiad newydd yn cael eu hasesu'n ofalus i sicrhau eu bod yn darparu dulliau cywir a chost-effeithlon o asesu perfformiad. Byddwn yn adrodd yn ôl yn rheolaidd i'r cyhoedd am ein perfformiad o safbwynt y mesurau hyn.

Mae'r safonau'n sylfaenol bwysig i'r gwasanaeth erlyn cyhoeddus. Byddan nhw'n ein harwain wrth drefnu ein gweithrediadau a dyfeisio'r systemau a'r prosesau sy'n cefnogi ein gwaith. Disgwyliwn i'r cyhoedd ein dal i gyfrif os byddwn ni'n methu â darparu'r gwasanaeth a ddisgrifir ynddyn nhw a byddwn yn beirniadu ein llwyddiant fel erlynyddion wrth ein gallu i gyflenwi'r safonau ansawdd hyn yn gyson.

Mae pob un o'r 12 safon yn y ddogfen hon, yn ymdrin â maes arbennig o'n gwaith. Mae rhestr o'r safonau i'w gweld ar dudalen 5. Amlinellir eu cynnwys yn y tudalennau canlynol.

Byddwn yn adolygu'r safonau'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn parhau i ddisgrifio gwasanaeth ansawdd craidd. Hefyd, byddwn yn ychwanegu atyn nhw wrth i ni ganfod meysydd craidd pellach lle bydd safonau'n bwysig.

Y Safonau Ansawdd Craidd

Safon 1: Byddwn yn cynghori'r heddlu ac ymchwilwyr eraill i'w cynorthwyo i fynd i'r afael â throseddu'n effeithlon a dwyn y troseddwyr i gyfiawnder.

Safon 2: Byddwn yn delio â materion y tu allan i'r llys, pan fydd hynny'n briodol, i sicrhau iawndal i ddioddefwyr, i adfer niwed, i sicrhau cosb a dalwyd neu i adsefydlu troseddwyr.

Safon 3: Byddwn yn cysylltu â chymunedau er mwyn i ni fod yn ymwybodol o'u pryderon pan fyddwn ni'n gwneud penderfyniadau.

Safon 4: Byddwn yn gwneud penderfyniadau cyhuddo amserol ac effeithlon yn unol â'r Cod ar gyfer Erlynyddion y Goron.

Safon 5: Byddwn yn gwrthwynebu mechnïaeth i ddiffynyddion pan fydd hynny'n briodol, gan ystyried yn arbennig y risg i'r cyhoedd.

Safon 6: Byddwn yn paratoi ein holl achosion yn brydlon er mwyn gallu cyflwyno pledion euog cynted ag sy'n bosibl ac er mwyn gallu cynnal treialon teg ar y dyddiad penodedig.

Safon 7: Byddwn yn cyflwyno ein hachosion yn deg ac yn gadarn.

Safon 8: Byddwn yn asesu anghenion dioddefwyr a thystion, yn eu hysbysu'n gyson am gynnydd eu hachos ac yn eu helpu i roi eu tystiolaeth orau.

Safon 9: Byddwn yn egluro ein penderfyniadau i ddioddefwyr pan fyddwn ni'n atal achosion neu'n newid y cyhuddiad yn sylweddol.

Safon 10: Byddwn yn cynorthwyo'r llys yn y broses ddedfrydu ac yn ceisio atafaelu elw trosedd.

Safon 11: Byddwn yn gweithredu ein hawliau apêl pan fyddwn ni'n credu bod y llys wedi gwneud y penderfyniad cyfreithiol anghywir.

Safon 12: Byddwn yn delio'n brydlon ac yn agored gyda chwynion am ein penderfyniadau a'r gwasanaeth a ddarperir gennym.

Safon 1: Byddwn yn cynghori'r heddlu ac ymchwilwyr eraill i gynorthwyo i fynd i'r afael â throseddau'n effeithlon ac i ddwyn troseddwyr i gyfiawnder

1.1 Rydyn ni'n cynghori'r heddlu a'r cyrff ymchwilio eraill pan fyddan nhw'n dod atom. Gall hyn weithiau fod cyn eu bod yn barod i arestio un a ddrwgdybir. Mae hyn fel arfer yn digwydd:

a wrth ymwneud â throseddwyr sydd wedi'u targedu;
b pan fydd angen penderfyniadau pwysig a all effeithio ar sut gellir defnyddio tystiolaeth mewn llys;
c pan fydd cymuned neu grŵp arbennig yn cael eu heffeithio gan ymddygiad troseddol cyson neu ymddygiad gwrthgymdeithasol.

1.2 Rhoddir cyngor neu ei gadarnhau'n ysgrifenedig, gyda rhesymau, a phan fydd hynny'n berthnasol, rhestr o bwyntiau gweithredu.

1.3 Rydyn ni'n cynghori ynghylch:

a troseddau posibl i gyhuddo neu ddulliau eraill o fynd i'r afael â'r troseddu er mwyn gallu canolbwyntio'n gywir ac yn effeithlon ar yr ymchwiliad;
b llinellau ymchwilio tebygol i lunio achos mor gadarn ag sy'n bosibl;
c derbynionldeb tebygol tystiolaeth;
d sut dylid casglu tystiolaeth er mwyn ei chyflwyno ar ei gorau mewn llys;
e y potensial er mwyn gofyn i'r llys wneud gorchmynion ategol, fel gorchmynion ymddygiad gwrthgymdeithasol a chasglu'r dystiolaeth angenrheidiol i gefnogi'r ceisiadau;
f y defnydd o bwerau arbennig sydd angen cydsyniad erlynydd i sicrhau cydweithrediad tystion neu orchymyn llys neu arall i gael tystiolaeth;
g estraddodiad person a ddrwgdybir;
h ataliaeth asedau person a ddrwgdybir; a
i sut i gael tystiolaeth o dramor o dan gytundebau diplomataidd gyda gwledydd eraill.

Safon 2: Byddwn yn delio â materion y tu allan i'r llys pan fydd hynny'n briodol i gael iawndal i ddioddefwyr, i adfer niwed, i sicrhau cosb a dalwyd neu i adsefydlu troseddwyr.

2.1 Ar ôl gwneud penderfyniad bod angen cymryd camau er lles y cyhoedd i ddelio ag ymddygiad troseddol diffynnydd, dylem ystyried a ellir delio â materion y tu allan i lys neu ryw ddull arall heblaw erlyniad sy'n briodol i'r drosedd, y gymuned lle digwyddodd y drosedd ac amgylchiadau'r diffynnydd.

2.2 Tra bod yr heddlu a chyrff ymchwilio eraill yn gweinyddu rhai materion y tu allan i lys eu hunain, maen nhw angen awdurdod erlynydd cyn

cynnig rhybudd syml i ddiffynnydd am drosedd sydd mor ddifrifol fel mai mewn Llys y Goron yn unig y gellir delio â hi os cyhuddir y diffynnydd.

2.3 Hefyd, mae'r Heddlu a chyrff ymchwilio eraill angen awdurdod erlynydd cyn cynnig rhybudd amodol. Mewn rhybudd amodol, gosodwn amodau y mae'n rhaid i droseddwyr gydymffurfio â nhw i osgoi erlyniad.

2.4 Cyn rhoi rhybudd syml neu rybudd amodol, rhaid cael digon o dystiolaeth i gyfiawnhau erlyniad yn y lle cyntaf a rhaid i'r troseddwr honedig gyfaddef i'w euogrwydd/heuogrwydd.

2.5 Wrth benderfynu a ddylid cynnig rhybudd syml neu rybudd amodol, rydyn ni'n ystyried y ffactorau budd i'r cyhoedd a amlinellwyd yng Nghod Erlynyddion y Goron, yn benodol barn unrhyw ddioddefwr a'r canllaw a roddir yng Nghanllawiau'r Cyfarwyddwr ar Rybuddio Amodol a Chylchlythyrau perthnasol y Swyddfa Gartref.

2.6 Wrth benderfynu a ddylid cynnig rhybudd amodol, ystyriwn hefyd:

a y cyfle i'r troseddwr wneud iawn am yr hyn roedd wedi'i wneud yn lle gorfod mynd i'r llys. Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd yn talu am drwsio'r niwed neu'n rhoi iawndal i'r dioddefwr;
b a fyddai gofyn iddo/iddi fynychu rhaglen i'w helpu i fynd i'r afael ag achos tanategol y troseddu (fel defnyddio alcohol neu gyffuriau), yn debygol o'i atal/hatal rhag cyflawni troseddau. Gwnawn hyn ar y cyd gyda'r heddlu ac asiantaethau perthnasol eraill fel y Gwasanaeth Iechyd neu'r Gwasanaeth Prawf; neu
c a ddylai'r troseddwr orfod talu cosb ariannol neu wneud gwaith di-dâl.

2.7 Ni ellir awdurdodi rhybudd amodol am drosedd o drais heblaw bod yr achos yn un ysgafn a gellid delio ag ef mewn llys ynadon os byddai'n cael ei gyhuddo.

2.8 Os bydd y troseddwr yn methu â chymryd y cynnig o rybudd amodol neu nad yw'n cydymffurfio â'r amodau heb esgus rhesymol, mae erlyniad am y drosedd wreiddiol yn debygol.

2.9 Gallwn ddod â rhybuddion syml a rhybuddion amodol i sylw'r Llys os bydd y troseddwr yn cael ei gyhuddo'n ddiweddarach am unrhyw drosedd bellach.

Safon 3: Byddwn yn cysylltu â chymunedau fel ein bod yn ymwybodol o'u pryderon pan fyddwn ni'n gwneud penderfyniadau

3.1 Rydyn ni'n egluro ein rôl i'n cymunedau lleol ac yn ymgynghori â nhw ar ein blaenoriaethau drwy grwpiau a phaneli cymuned. Mae'r paneli'n rhoi adborth am y modd y mae cymunedau'n debygol o feddwl am ein

penderfyniadau a'n gweithdrefnau delio ag achosion. Byddwn yn defnyddio eu hadborth i adolygu sut byddwn ni'n cynnal ein hachosion.

3.2 Byddwn yn gweithio gyda'r heddlu a'r awdurdodau lleol i ddatrys problemau sy'n wynebu cymdogaethau a chymunedau fel ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Safon 4: Byddwn ni'n gwneud penderfyniadau cyhuddo amserol ac effeithlon yn unol â Chod Erlynyddion y Goron

4.1 Rydyn ni'n penderfynu a ddylid cyhuddo diffynnydd yn yr achosion mwy difrifol neu gymhleth. Wrth wneud penderfyniadau, rydyn ni'n cymhwyso'r profion a'r canllawiau a welir yng Nghod Erlynyddion y Goron.[1]

4.2 Mewn rhai achosion, mae'n bosibl y bydd erlynyddion hefyd yn cynnal cyfweliad cyn-treial gyda thystion i asesu dibynadwyedd eu tystiolaeth. Wrth gynnal y cyfweliadau hyn, mae erlynyddion yn dilyn canllawiau a osodwyd gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus[2].

4.3 Ein nod yw penderfynu a hysbysu'r heddlu neu ymchwiliwr arall o fewn cyfnodau amser tyn y cytunwyd arnyn nhw.

4.4 Yn ein rhybuddion o'n penderfyniad amlinellir rhesymau dros y penderfyniad cyhuddo, sut bydd yr erlyniad yn cyflwyno ei achos yn y llys a sut bydd unrhyw wendidau neu amddiffyniadau tebygol yn cael eu trin. Maen nhw hefyd yn amlinellu unrhyw waith pellach angenrheidiol, gan gynnwys:

a pa dystiolaeth ychwanegol benodol y dylid gofyn amdani i atgyfnerthu'r achos, neu i gefnogi ceisiadau am orchmynion atodol fel gorchmynion ymddygiad gwrthgymdeithasol neu orchmynion ataliol;
b pa dystiolaeth ddylai'r eiriolwr yn y llys ofyn amdani i'r amddiffyniad gytuno arni i arbed i'r tystion orfod bod yn bresennol yn ddiangen;
c sut i gyflawni unrhyw anghenion penodol tystion a pha fesurau arbennig sydd eu hangen i alluogi tystion bregus neu ofnus gyflwyno eu tystiolaeth yn effeithlon;
d a pha dystiolaeth fydd angen paratoi rhybuddion ysgrifenedig ar eu cyfer (er enghraifft tystiolaeth cymeriad gwael a thystiolaeth achlust) i'w defnyddio os bydd y diffynnydd yn pledio'n ddieuog yn y llys.

4.5 Mae datganiadau penderfyniad hefyd:

a yn dweud a ddylid gwrthwynebu mechnïaeth ac, os felly, y rhesymau, neu, os yn briodol, pa amodau y dylai'r eiriolwr ofyn i'r llys eu gosod;

[1] Ar gael ar ein gwefan, (www.cps.gov.uk) neu yn dilyn cais.
[2] Cyfweliadau cyn-treial gyda thystion: Cod Ymarfer, ar gael ar ein gwefan (www.cps.gov.uk) neu o wneud cais.

b nodi a oedd yr achos yn addas i gael gwrandawiad mewn llys ynadon, neu mor ddifrifol fel y dylai'r eiriolwr ofyn i'r ynadon ei anfon i Lys y Goron;
c yn amlinellu unrhyw ble o euogrwydd arall sy'n dderbyniol, neu sy'n sail i ble, gan ofalu sicrhau y gall y llys osod dedfryd sy'n cyfateb i ddifrifoldeb y troseddu;
d a chanfod unrhyw orchmynion y dylai'r eiriolwr ofyn i'r llys eu gwneud yn ychwanegol at ddedfrydu'r diffynnydd.

4.6 Pan fydd y penderfyniad yn un i beidio â chyhuddo, mae'r erlynydd yn amlinellu pa elfennau o'r drosedd na ellir eu profi, y rhesymau dros hyn, neu, pan fydd yn briodol, pam nad oes angen erlyn er budd y cyhoedd.

Safon 5: Byddwn yn gwrthwynebu mechnïaeth i ddiffynyddion pan fydd hynny'n briodol, gan ystyried yn ofalus y risg i'r cyhoedd

5.1 Mae gan bron pob diffynnydd hawl awtomatig i fechnïaeth, heblaw y gellir sefydlu bod un neu fwy o nifer penodol o resymau dros atal mechnïaeth[3].

5.2 Ym mhob gwrandawiad, mae'r eiriolwr yn ystyried a oedd rhesymau i wrthwynebu mechnïaeth, neu i osod cyfyngiadau ar fechnïaeth y diffynnydd.

5.3 Wrth benderfynu ar hyn, byddwn yn ystyried:

a natur a chryfder y dystiolaeth yn erbyn y diffynnydd;
b difrifoldeb y drosedd y mae wedi'i gyhuddo/chyhuddo ohoni;
c euogfarnau blaenorol y diffynnydd, gan gynnwys ei hanes o gydymffurfio â mechnïaeth;
d a ydy'r diffynnydd ar fechnïaeth yn barod am droseddau eraill;
e unrhyw hanes o gwynion o natur debyg; ac
f unrhyw beth arall a wyddys am y diffynnydd fel canlyniadau prawf cyffuriau yng ngorsaf yr heddlu.

5.4 Yn y gwrandawiad, mae eiriolwyr yn amlinellu'r rhesymau penodol dros wrthwynebu mechnïaeth neu ofyn am osod amodau ac yn amlinellu'r wybodaeth sydd ar gael i gefnogi pob un o'r rhesymau gan gynnwys unrhyw bryderon a fynegwyd gan y dioddefwr mewn Datganiad Personol Dioddefwr am y ffaith bod y diffynnydd ar fechnïaeth.

5.5 Byddwn yn penderfynu cyn y gwrandawiadau mewn llysoedd ynadon a ydy'r drosedd yn un y mae gan yr erlynydd hawl i apelio yn erbyn caniatáu mechnïaeth. Os felly, a ddylid apelio os bydd yr ynadon yn caniatáu mechnïaeth. Os bydd yr ynadon yn caniatáu mechnïaeth

[3] Mae pedwar prif rheswm y gellir eu crynhoi fel rhai sy'n resymau sylweddol dros gredu y byddai'r diffynnydd, petai'n cael ei ryddhau ar fechnïaeth: yn methu â mynychu llys; yn cyflawni trosedd arall; yn ymyrryd gyda thystion neu gwrs cyfiawnder; neu'n hunan-niweidio neu'n niwedio eraill.

mewn achos lle rydyn ni wedi penderfynu y byddai'n briodol apelio, mae'r eiriolwr yn rhybuddio'r llys ar unwaith o'n bwriad i apelio, er mwyn gallu cadw'r diffynnydd mewn dalfa tan ar ôl gwrando ar yr apêl.

5.6 Mae gan ddiffynyddion hawl i apelio i farnwr yn erbyn atal mechnïaeth neu osod amodau mechnïaeth. Rydyn ni'n mynychu gwrandawiad yr apêl i wrthwynebu'r cais neu i awgrymu amodau priodol os bydd barnwr yn bwriadu caniatáu mechnïaeth neu newid yr amodau presennol.

5.7 Pan fydd diffynnydd yn cael ei ddwyn yn ôl i'r llys am dorri amodau ei fechnïaeth neu'n ymddangos i swyddog yr heddlu fel un sy'n debygol o dorri amodau ei fechnïaeth, mae eiriolwyr yn cyflwyno datganiadau i'r ynadon ynglŷn â ddylid diddymu mechnïaeth neu newid yr amodau.

5.8 Mae eiriolwyr yn gwneud nodiadau manwl [ar ein ffeil] o'r rhesymau a gyflwynwn dros wrthwynebu mechnïaeth neu geisio amodau ac unrhyw gyflwyniadau a wnaed gan yr amddiffyniad amdanyn nhw. Mae hyn yn ein helpu i ddelio ag unrhyw awgrym diweddarach bod amgylchiadau wedi newid a allai gyfiawnhau caniatáu mechnïaeth neu lacio unrhyw amodau mechnïaeth, ac i ganfod unrhyw amddiffyniadau tebygol i'r cyhuddiad (au).

Safon 6: Byddwn yn paratoi ein holl achosion yn brydlon er mwyn gallu cyflwyno pledion euog ar y cyfle cyntaf a sicrhau bod treialon tebyg yn digwydd ar y dyddiadau penodedig

Gwrandawiad cyntaf achos yn llysoedd yr ynadon

6.1 Mae pob diffynnydd yn gwneud ei ymddangosiad/hymddangosiad cyntaf yn y llys mewn llys ynadon.

Mae eiriolwyr yn paratoi ar gyfer y gwrandawiad cyntaf drwy:

a Ystyried y penderfyniad i gyhuddo a'r cyfarwyddiadau ac a oes angen adolygiad pellach o'r achos;
b Pan fydd yr heddlu wedi newid yr achos, bodloni eu hunain bod y cyhuddiadau'n briodol ac y gellir eu profi, bod angen erlyn er budd y cyhoedd, ac os bydd yr heddlu'n atal mechnïaeth, penderfynu a ddylid gofyn am gadw yn y ddalfa neu atodi amodau priodol at fechnïaeth y diffynnydd;
c Paratoi unrhyw ddatganiadau i'w gwneud i'r llys yn gwrthwynebu'r fechnïaeth neu am osod amodau'r fechnïaeth; a
d a chymryd camau i sicrhau gallu gwneud cynnydd yn yr achos ac osgoi unrhyw ohiriadau diangen fel sicrhau bod yr amddiffyniad a'r llys wedi derbyn manylion gwreiddiol achos yr erlyniad.

6.2 Mewn amser da cyn dechrau'r llys, mae'r eiriolwyr yn sicrhau eu bod ar gael i gyfarfod cynghorydd cyfreithiol y llys, cyfreithwyr yr amddiffyniad a swyddogion y Gwasanaeth Prawf neu'r Tîm Troseddau'r Ifanc i nodi

achosion sy'n debygol o esgor ar ble euogrwydd er mwyn, hyd y mae'n bosibl, gallu paratoi adroddiadau cyn-dyfarnu ar y diwrnod i'r llys allu roi dyfarniad i'r troseddwr heb orfod ymddangos eto.

6.3 Pan fydd diffynnydd yn pledio'n euog, bydd yr eiriolwyr:

a yn crynhoi'r dystiolaeth, gan gynnwys, pan fydd yn briodol, unrhyw ddeunydd gweledol a gofnodwyd a Datganiad Personol y Dioddefwr, i'r ynadon er mwyn iddyn nhw allu rhoi dyfarniad sy'n adlewyrchu'n gywir ddifrifoldeb y drosedd;
b yn tynnu sylw at unrhyw euogfarnau blaenorol a, phan fydd yn briodol, rybuddion syml neu rybuddion amodol a gofnodwyd yn erbyn y diffynnydd;
c yn sicrhau bod y llys yn ymwybodol o'i bwerau dedfrydu gan gynnwys unrhyw ddedfryd neu orchymyn y mae'n rhaid i'r ddeddf ei phasio/basio; ac
d yn gofyn i'r llys ystyried unrhyw orchmynion atodol priodol fel iawndal neu Orchymyn Ymddygiad Gwrth-gymdeithasol neu Orchymyn Ataliol a all gyfyngu ar allu'r diffynnydd i droseddu'n y dyfodol (Byddwn yn dweud mwy am rôl yr erlynydd yn y broses ddedfrydu yn Safon 10).

6.4 Os bydd yr ynadon yn penderfynu bod yr achos yn cyfiawnhau dedfryd nad oes ganddyn nhw'r pŵer i osod ac felly'n trosglwyddo'r diffynnydd i Lys y Goron i'w ddedfrydu, byddwn yn anfon copïau o'r dystiolaeth a rhestr o unrhyw euogfarnau, rhybuddion syml neu rybuddion amodol a gofnodwyd yn erbyn y diffynnydd, i Lys y Goron fel y gall y barnwr baratoi ar gyfer y gwrandawiad dedfrydu.

6.5 Os bydd y diffynnydd yn pledio'n ddieuog, a bod yr achos yn un y gellir delio ag ef naill ai mewn llys ynadon neu Lys y Goron, mae'r eiriolwr yn rhoi gwybod i'r llys a ydy'r erlyniad yn ystyried bod yr achos yn addas iddyn nhw ddelio ag ef neu ei fod mor ddifrifol fel y dylid ei draddodi i Lys y Goron i gynnal treial.

6.6 Os bydd yr achos yn mynd o flaen y llys ynadon, bydd yr eiriolwr:

a yn trafod gydag eiriolwr y diffynnydd pa dystiolaeth y gellid cytuno arni heb fod angen i'r tystion perthnasol fynychu'r llys;
b yn helpu'r llys i ganfod y materion sydd i'w rhoi ar brawf;
c yn sicrhau bod y llys yn ymwybodol o ddyddiadau'r treial sy'n anghyfleus i dystion yr erlyniad;
d yn gofyn i'r llys roi cyfarwyddiadau am yr amserlen ar gyfer paratoi'r treial gan gynnwys ceisiadau am fesurau arbennig i helpu tystion i roi eu tystiolaeth yn effeithlon a rhybuddion i ddefnyddio tystiolaeth cymeriad gwael neu dystioolaeth achlust; ac
e yn cofnodi yn y ffeil pa waith pellach fydd yn rhaid i'r erlyniad ei wneud i fod yn barod ar gyfer y treial.

6.7 Os bydd yr ynadon yn penderfynu y dylai achosion traddodi ddigwydd neu eu bod yn anfon yr achos i dreial yn Llys y Goron[4], rydyn ni'n eu cynorthwyo i osod dyddiad y gwrandawiad nesaf drwy amcangyfrif pa mor hir y bydd angen i ni a'r heddlu neu unrhyw ymchwiliwr arall gwblhau'r gwaith angenrheidiol ar gyfer y gwrandawiad nesaf.

Paratoi ar gyfer treialon neu achosion traddodi mewn llysoedd ynadon a gwrandawiadau cyntaf achosion a anfonwyd i Lys y Goron

6.8 Cynted ag sy'n bosibl ar ôl i ddiffynnydd bledio'n ddieuog mewn llys ynadon neu ohirio'r achos ar gyfer achosion traddodi neu ei anfon[5] i Lys y Goron, byddwn ni'n penderfynu pa gamau sydd eu hangen ar gyfer i'r treial, traddodi neu wrandawiad cyntaf Llys y Goron ddigwydd.

6.9 O fewn cyfnod caeth, byddwn yn gofyn i'r heddlu neu i ymchwiliwr arall:

a anfon ffeil i ni'n cynnwys y dystiolaeth a deunydd arall a gasglwyd yn ystod yr ymchwiliad ac i gwblhau unrhyw gamau nad sydd wedi'u cyflawni o'r penderfyniad cyhuddo gwreiddiol;
b am unrhyw dystiolaeth neu wybodaeth ychwanegol angenrheidiol arall ar gyfer y gwrandawiad nesaf, gan gynnwys cynlluniau neu luniau i wneud yr achos yn haws i'r llys ei ddeall;
c gyflawni unrhyw waith penodol arall a nodwyd yn y gwrandawiad llys blaenorol; ac am
d drefnlen deunyddiau perthnasol nas defnyddiwyd a gasglwyd yn ystod yr ymchwiliad er mwyn i ni allu cydymffurfio â'n dyletswydd gyfreithiol i ddatgelu i'r diffynnydd unrhyw ddeunydd neu wybodaeth a all danseilio achos yr erlyniad neu gynorthwyo achos yr amddiffyniad.

6.10 Pan fydd yr achos i'w gynnal mewn llys ynadon, o fewn cyfnod caeth, byddwn hefyd yn gofyn i'r Uned Gofal Tystion[6] hysbysu'r tystion sydd i roi tystiolaeth mewn llys am ddyddiad y treial ac i drafod gyda nhw pa gymorth y byddan nhw ei angen efallai yn y llys a chyn y treial. Gofynnwn iddyn nhw wneud hyn yn ddiweddarach mewn achosion sydd wedi'u hanfon neu eu traddodi i Lys y Goron.

6.11 Ein nod yw delio â deunydd newydd sydd wedi'i gyflwyno gan yr heddlu neu ymchwiliwr arall a gohebiaeth oddi wrth y diffynnydd o fewn cyfnod caeth i'w derbyn.

---

[5] Mae achosion y gellir delio â hwy yn Llys y Goron yn unig, yn dechrau yn y llys ynadon ond byddan nhw'n cael eu hanfon i Lys y Goron yn brydlon yn unol â gweithdrefn arbennig heb bod angen achosion traddodi.

[6] Mae'r gwasanaeth erlyn a'r heddlu wedi sefydlu Unedau Gofal Tystion ar y cyd i drefnu i dystion erlyn fynychu llys, i asesu eu hanghenion er mwyn iddyn nhw allu rhoi eu tystiolaeth yn effeithlon ac i'w hysbysu'n gyson am gynnydd eu hachos a'i ddeilliant.

6.12 Wrth baratoi'r achos ar gyfer y treial, y traddodi neu'r gwrandawiad cyntaf yn Llys y Goron, byddwn:

a yn asesu a oes digon o dystiolaeth i roi rhagolwg realistig o euogfarn ac a oes angen erlyniad eto er budd y cyhoedd, gan nodi'r hyn a ddigwyddodd ers i'r erlynydd ystyried yr achos y tro cyntaf;
b yn penderfynu a ddylid chwilio am dystiolaeth ychwanegol i atgyfnerthu'r achos;
c yn ystyried unrhyw drosedd arall y gellir ei phrofi a lle mae angen erlyn er budd y cyhoedd, os na ellir symud ymlaen gyda'r drosedd y cyhuddir ohoni;
d yn ymgynghori gyda'r heddlu neu ymchwiliwr arall cyn gwneud penderfyniad terfynol i weld a oedd ganddyn nhw wybodaeth a allai effeithio ar ein barn dros dro, os byddwn ni'n bwriadu atal yr achos. Pan fydd y penderfyniad arfaethedig wedi'i seilio er budd y cyhoedd, byddwn ni hefyd yn ymgynghori gyda'r achwynwr, pan fydd hynny'n ymarferol;
e yn paratoi nodyn ar gyfer yr eiriolwr ym mhob achos heblaw'r rhai symlaf, gan amlinellu sut bydd pob elfen o'r drosedd yn cael ei phrofi gan gynnwys cryfderau a gwendidau'r dystiolaeth, sut dylid delio ag amddiffyniad tebygol y diffynnydd ac a oes angen yr erlyniad o hyd er budd y cyhoedd;
f yn amlinellu unrhyw bledion euog derbyniol eraill neu seiliau i bledion, gan ofalu sicrhau y gall y llys roi dedfryd sy'n cyfateb i ddifrifoldeb y troseddu;
g yn paratoi ceisiadau neu rybuddion ysgrifenedig am unrhyw fesurau arbennig i alluogi tystion i roi eu tystiolaeth yn effeithlon ac am ganiatâd i ddefnyddio unrhyw dystiolaeth sy'n gofyn am ganiatâd y llys, os na fydd hyn wedi'i wneud;
h yn penderfynu a ddylid datgelu unrhyw ddeunydd nad sydd wedi'i ddefnyddio i'r amddiffyniad oherwydd y gallai danseilio achos yr erlyniad neu gynorthwyo achos yr amddiffyniad;
i yn penderfynu bod unrhyw ddeunydd a all fod yn berthnasol i achos yr amddiffyniad fod mor sensitif fel y dylid gofyn i'r llys a ellid ei atal;
j yn anfon trefnlen o'r holl ddeunydd nas defnyddiwyd ac a ystyriwyd gennym at yr amddiffyniad gyda chopïau o unrhyw ddeunydd i'w ddatgelu neu gyfarwyddiadau lle gellir eu harchwilio. Byddwn yn dweud mwy am hyn ym mharagraffau 19 i 25 o'r Safon hwn'
k yn gwirio bod y dioddefwr wedi cael cyfle i baratoi Datganiad Personol y Dioddefwr i'w ddefnyddio yn ystod y gwrandawiad dedfrydu os bydd y diffynnydd yn cael ei euogfarnu;
l yn trefnu, pan fydd yn bosibl, i dyst y bydd ei gyfweliad ar dâp fideo'n cael ei ddangos i'r llys, weld y recordiad cyn y treial i'w atgoffa cyn rhoi tystiolaeth;
m yn gwirio cyflawni unrhyw anghenion eraill tystion; ac yn
n sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r Rheolau Gweithdrefnau Troseddol.

6.13 Rydyn ni'n pwyso ar yr amddiffyniad i ymateb i faterion nad ydyn nhw wedi delio â nhw gynted ag sy'n bosibl.

6.14 Byddwn yn cadarnhau i'r llys erbyn y dyddiad y cytunwyd arno a ydy'r erlyniad yn barod ar gyfer y treial neu unrhyw wrandawiad arall ac, os na, a ellir gofyn am ohiriad.

Gwaith ychwanegol angenrheidiol wrth baratoi achosion ar gyfer Llys y Goron

6.15 Pan fydd achos i'w glywed yn Llys y Goron, byddwn yn paratoi ditiad drafft sy'n amlinellu'r honiadau yn erbyn y diffynnydd yn y termau ffurfiol sy'n ofynnol gan Lys y Goron.

6.16 Byddwn hefyd yn paratoi cyfarwyddiadau ysgrifenedig i'r eiriolwr fydd yn cynrychioli'r achos yn Llys y Goron. Bydd yr holl eiriolwyr a gymeradwy-wyd i gynrychioli'r erlyniad yn Llys y Goron yn cael cyfres o gyfarwyddiadau safonol dan y teitl *Cyfarwyddiadau CPS ar gyfer Eiriolwyr yr Erlyniad*[7]*.* Hefyd, byddwn:

a yn amgáu copïau o'r holl dystiolaeth a gasglwyd yn yr achos, y drefnlen o ddeunydd nas defnyddiwyd yn amlinellu penderfyniadau'r erlynydd am ddatgelu'r deunydd i'r amddiffyniad a'r holl ohebiaeth berthnasol gyda'r llys neu gyfreithwyr y diffynnydd fel eitemau mewn rhestr;

b yn darparu copïau o unrhyw gais neu rybudd ysgrifenedig i ddefnyddio tystiolaeth sydd angen caniatâd y llys, fel mesurau arbennig i alluogi tystion i roi tystiolaeth yn effeithlon, achlust neu dystiolaeth cymeriad gwael neu amlinellu pam nad yw un o'r ceisiadau hyn yn ymddangos fel rhywbeth angenrheidiol;

c yn amlinellu sut dylid cyflwyno'r achos er mwyn profi holl elfennau'r drosedd honedig a sut gellir delio ag unrhyw amddiffyniadau neu wendidau tebygol yn yr achos a, phan fydd yn berthnasol, gopi o benderfyniad cyhuddo'r erlynydd;

d yn dangos unrhyw ddarpariaethau cyfreithiol anghyffredin sy'n effeithio ar yr achos;

e yn egluro pa waith pellach rydyn ni wedi'i drefnu;

f yn gofyn i'r eiriolwr gynghori'n brydlon am unrhyw gamau pellach y mae ef/hi'n ystyried fyddai'n atgyfnerthu'r achos neu'n helpu i'w gyflwyno'n gliriach i'r llys;

g yn nodi pa bledion eraill, os o gwbl, rydyn ni'n barod i'w derbyn oddi wrth y diffynnydd a phwysleisio na ddylai unrhyw gynnig i bledio'n euog i fersiwn arbennig o ddigwyddiadau gyfyngu ar allu'r llys i atafaelu elw trosedd y diffynnydd. Byddwn yn dweud mwy am ein rôl yn atafaelu elw'r drosedd yn Safon 11;

h yn canfod unrhyw nodweddion arbennig yr achos sy'n gofyn am sylw'r eiriolwr cyn y treial, fel ceisiadau i gael neu i ddiogelu gwybodaeth gyfrinachol;

i yn amlinellu a ydy'r diffynnydd mewn dalfa neu, os bydd ef neu hi ar fechnïaeth, pa amodau sydd wedi'u gosod gan y llys;

[7] Ar gael ar ein gwefan (www.cps.gov.uk) neu o wneud cais.

j yn egluro a ydy'n debygol y bydd angen rhybudd tyst neu warant tyst i sicrhau presenoldeb unrhyw dyst mewn llys neu'r rhesymau pam nad yw'n debygol y bydd eu hangen;
k yn gosod dyddiadau cau ar gyfer derbyn unrhyw dystiolaeth hwyr, yn arbennig tystiolaeth wyddonol neu arbenigol arall; ac
l yn rhoi manylion cyswllt yr erlynydd a'r swyddog paragyfreithiol sy'n gyfrifol am yr achos.

6.17 Gwnawn unrhyw waith ychwanegol y bydd yr eiriolwr yn dweud sy'n angenrheidiol i sicrhau bod yr achos wedi'i baratoi'n drylwyr.

Datgelu gwybodaeth i ddiffynyddion sicrhau treial teg

6.18 Disgwylir i'r heddlu ac ymchwilwyr eraill, yn ôl y gyfraith, baratoi trefnlenni o'r holl ddeunydd perthnasol nas defnyddir a gasglwyd yn ystod ymchwiliad fel rhan o dystiolaeth yr erlynydd a chyflwyno trefnlenni i ni.

6.19 Ystyriwn y trefnlenni i benderfynu a fydd un eitem yn y rhestr:

a yn gorfod cael ei ddefnyddio fel rhan o dystiolaeth yr erlyniad;
b efallai'n tanseilio achos yr erlyniad;
c efallai'n cynorthwyo achos yr amddiffyniad; ac
d a fydd unrhyw ran ohono mor sensitif fel na ddylid ei ddatgelu i'r amddiffyniad.

6.20 Gofynnwn i'r heddlu neu ymchwiliwr arall am gopi o unrhyw eitemau a all fod yn un o'r categorïau hyn er mwyn i ni eu hystyried ymhellach.

6.21 Byddwn yn cofnodi ein penderfyniad ar gyfer pob eitem ar y trefnlenni, gan roi rhesymau dros hyn. Byddwn yn anfon y drefnlen at yr amddiffyniad fel ei fod yn ymwybodol o'r holl ddeunydd sydd ar gael, heblaw unrhyw ddarn sydd mor sensitif fel na ddylid ei ddatgelu.

6.22 Rydyn ni'n darparu copïau o unrhyw ddeunydd a all danseilio achos yr erlyniad neu gynorthwyo achos yr amddiffyniad ar gyfer yr amddiffyniad neu, os na fydd yn ymarferol i'w gopïo, yn eu gwahodd i'w archwilio, fel arfer mewn gorsaf heddlu.

6.23 Pan fydd gwybodaeth mor sensitif fel na ddylid ei datgelu i'r amddiffyniad ac efallai y bydd yn tanseilio achos yr erlyniad neu'n cynorthwyo achos yr amddiffyniad, byddwn yn gofyn i'r llys benderfynu a ddylid ei datgelu iddyn nhw neu a ellir ei atal.

6.24 Adolygwn y mater datgelu'n barhaus drwy'r achos ac ar ôl hynny, rhag ofn i unrhyw wybodaeth newydd ddod i'r amlwg a allai fod wedi tanseilio achos yr erlyniad neu gynorthwyo achos yr amddiffyniad. Byddwn yn ail ystyried ein penderfyniadau datgelu pan fydd yr amddiffyniad yn sôn wrthym am eu hachos, gan gynnwys gofyn i'r

heddlu neu ymchwiliwr arall roi sylwadau ar wybodaeth gan yr amddiffyniad.

Terfyn amser yn y ddalfa

6.25 Gellir cadw diffynnydd yn y ddalfa i aros ei draddodi ar gyfer treial am gyfnod cyfyngedig yn unig heblaw l'r llys gytuno i ymestyn y cyfnod.

6.26 Pan fydd diffynnydd wedi'i gadw yn y ddalfa, bydd yr eiriolwr yn y gwrandawiad cyntaf a phob gwrandawiad dilynol:

a yn cytuno gyda'r llys ar ddyddiad y bydd y terfyn amser statudol yn y ddalfa i ddechrau'r treial neu i draddodi'r achos i Lys y Goron yn gorffen; a
b yn gofyn i'r llys gyhoeddi'r dyddiad terfynol y cytunwyd arno fel bod pawb yn y llys yn ymwybodol ohono. Nodwn y wybodaeth hon yn ein ffeil achos ac yna ei gofnodi yn ein dyddiaduron amser terfynol yn y ddalfa.

6.27 Rydyn ni'n blaenoriaethu paratoi achosion yn y ddalfa i sicrhau y gall y treial ddechrau neu'r traddodi ddigwydd o fewn terfyn amser yn y ddalfa, neu ein bod yn gallu dweud ein bod wedi bod mor ddyfal a hwylus ag oedd angen wrth ofyn i'r llys ymestyn y terfyn amser.

6.28 Rydyn ni'n adolygu'r dyddiaduron terfyn amser yn y ddalfa o leiaf yn wythnosol i wirio a fydd unrhyw derfyn amser yn y ddalfa'n agosáu. Mae rheolwr cyfreithiol enwebedig neu uwch erlynydd yn ystyried unrhyw achos a nodir gan y gwiriadau o leiaf yn wythnosol. O fewn cyfnod amser caeth cyn i'r amser ddod i ben, byddwn yn anfon rhybudd i'r llys a'r amddiffyniad os bydd yn ymddangos na fydd yr achos yn dechrau o fewn y terfyn amser fel y gall y llys ystyried a ddylid rhoi estyniad. Rydyn ni'n paratoi cronoleg o ddigwyddiadau i helpu'r llys benderfynu a ydy'r erlyniad wedi gweithredu mor ddyfal a hwylus ag y dylai.

6.29 Mae rheolwyr yn gwirio cydymffurfiant gyda'r systemau'n wythnosol.

Safon 7: Byddwn yn cyflwyno ein hachosion yn deg ac yn gadarn

Cynnal treialon[8]

7.1 Cyn y gwrandawiad, bydd yr eiriolwr:

a yn ystyried hanes llawn yr achos, gan gynnwys nodyn adolygu'r treial, i sicrhau bod popeth wedi'i baratoi'n gywir;

[8] Mae'r gwasanaeth erlyn wedi amlinellu'r safonau a ddisgwylir gan eiriolwyr sy'n ymddangos mewn llys ar ei ran yn *National Standards of Advocacy*, sydd ar gael ar ein gwefan (www.cps.gov.uk) neu o wneud cais.

b yn paratoi araith agoriadol fer neu amlinelliad o'r dystiolaeth i gynorthwyo'r ynadon neu'r rheithgor, ym mhob un ond yr achos symlaf, ddeall yr achos neu, os bydd y diffynnydd yn pledio'n euog, cynorthwyo'r ynadon neu'r barnwr i ddedfrydu yn erbyn y troseddwr;
c yn paratoi cynllun dros dro i groesholi diffynnydd ac unrhyw dystion yr amddiffyniad y gwyddys amdanyn nhw;
d yn paratoi amlinelliad ysgrifenedig o unrhyw ddadl gyfreithiol i'w chyflwyno i'r ynadon neu i'r barnwr; ac
e yn penderfynu ar y drefn i dystion yr erlyniad gyflwyno eu tystiolaeth yn achosion Llys y Goron ac achosion llysoedd ynadon sy'n debygol o barhau am fwy na diwrnod, er mwyn arbed iddyn nhw fynychu'r llys yn hwy nag sydd angen.

7.2 Mae'r eiriolwr yn cyrraedd y llys mewn pryd i gyfarfod y tystion ac:

a yn dangos iddyn nhw, neu'n trefnu i gynrychiolydd o'r Gwasanaeth Tystion ddangos iddyn nhw, eu datganiadau tyst (neu eu cyfweliad a recordiwyd ar fideo os nad yw hyn wedi'i wneud) er mwyn eu hatgoffa cyn iddyn nhw roi tystiolaeth;
b yn egluro'r hyn fydd yn digwydd yn ystod y dydd, gan gynnwys effaith unrhyw fesurau arbennig sydd wedi'u cytuno gan y llys i'w cynorthwyo i roi eu tystiolaeth; ac
c yn ateb unrhyw gwestiynau fydd ganddyn nhw efallai hyd y mae'r gyfraith yn caniatáu.

7.3 Yn ôl y gyfraith, fodd bynnag, ni all eiriolwyr drafod tystiolaeth tystion na dweud wrthyn nhw pa dystiolaeth y gall tystion eraill ei rhoi efallai.

7.4 Yn ystod diwrnod y llys, bydd yr eiriolwr:

a yn cyflwyno achos yr erlyniad yn agored, yn onest ac yn gywir, gan weithredu er budd cyfiawnder ac nid gyda'r unig nod o gael euogfarn;
b yn hysbysu'r tystion - naill ai'n uniongyrchol, neu os na allan nhw adael ystafell y llys, drwy gynorthwyydd neu swyddog yn y llys - am y rhesymau dros unrhyw oedi;
c yn trin tystion a diffynyddion yn barchus ac yn gofyn i'r llys ymyrryd i atal holi tystion yr erlyniad; ac
d yn gofyn i'r llys am ganiatâd i dystion yr erlyniad adael y llys cynted ag y byddan nhw wedi rhoi eu tystiolaeth, os byddan nhw'n dymuno gwneud hynny, heblaw bod rheswm digonol pam y dylen nhw aros.

7.5 Bydd yr eiriolwr hefyd yn bersonol neu drwy gynorthwyydd:

a yn trefnu i gyflwyno arddangosion ar yr amser priodol;
b yn cysylltu gyda thystion fel eu bod ar gael i roi tystiolaeth ar yr adeg gywir a'u hysbysu'n gyson am unrhyw oedi; ac

c yn gwneud unrhyw olygu dogfennau munud olaf sy'n angenrheidiol o ganlyniad i benderfyniadau'r llys ar ddadleuon cyfreithiol.

7.6 Os bydd y diffynnydd yn cael ei euogfarnu, rhaid i eiriolwyr erlyniad gynorthwyo ynadon neu'r barnwr gyda'r broses ddedfrydu a, lle mae angen gohirio'r ddedfryd, gyda phenderfyniadau a ddylid cadw'r diffynnydd yn y ddalfa i ddisgwyl y ddedfryd. Rydyn ni'n dweud mwy am rôl yr erlynydd wrth ddedfrydu yn Safon 10.

Delio â chynigion o bledion euog[9]

7.7 Mae nifer o ddiffynyddion yn cynnig pledio'n euog i rai o nifer o droseddau, i drosedd wahanol neu ar sail fersiwn arbennig o ddigwyddiadau. Mae hyn yn aml yn digwydd ar y funud olaf, yn aml ychydig amser cyn dechrau'r treial. Pryd bynnag bydd hyn yn digwydd, byddwn:

a yn ystyried unrhyw farn a fynegwyd gan y dioddefwr neu ei deulu/theulu, ar unrhyw gynnig i dderbyn cynnig o'r fath;
b yn sicrhau y gall y llys roi dedfryd sy'n cyfateb i ddifrifoldeb y troseddu gan ystyried goblygiadau'r pledion arfaethedig ar gyfer argaeledd gorchmynion atodol priodol. Rydyn ni'n sicrhau nad yw sail arfaethedig y ble wedi'i seilio ar gyfres gamarweiniol neu anwir o ffeithiau ac nad yw'n niweidiol i fudd y dioddefwr. Os na ellir cytuno ar sail ple, gall yr eiriolwr wahodd y llys i wrando ar dystiolaeth er mwyn iddo allu penderfynu ar sail i ddedfrydu'r troseddwr; ac
c yn sicrhau bod unrhyw sail ple y cytunwyd arno'n cael ei gofnodi a'i arwyddo gan eiriolwr yr amddiffyniad ac eiriolwr yr erlyniad ym mhob achos lle nad yw'r ple'n cael ei chynnig ar sail achos yr erlyniad.

Safon 8: Byddwn ni'n asesu anghenion dioddefwyr a thystion, yn eu hysbysu'n gyson am gynnydd eu hachos, a'u helpu i roi eu tystiolaeth orau[10]

8.1 Pennir Swyddog Gofal Tystion, neu mewn achosion arbennig, swyddog o'r heddlu, Swyddog Profedigaeth Teulu, neu Gynghorydd Trais Rhywiol Annibynnol[11] i bob achos fel un pwynt cyswllt ar gyfer y dioddefwyr a'r tystion o'r ymddangosiad cyntaf i ddiwedd yr achos. Maen nhw'n hysbysu dioddefwyr a thystion am gynnydd yr achos drwy bob cam o'r achosion llys, ac yn ceisio sicrhau bod eu hanghenion

[9] Mae *The Attorney General's Guidelines on The Acceptance of Pleas and the Prosecutor's Role in the Sentencing Process* yn rhoi canllawiau manwl i lysoedd, erlynwyr, cyfreithwyr yr amddiffyniad a'r cyhoedd ar y mater hwn. Mae ar gael ar ein gwefan, www.cps.gov.uk neu o wneud cais.
[10] Gweler hefyd Addewid yr Erlynydd, Datganiad Polisi'r CPS ar Ddioddefwyr a Thystion a Chod Ymarfer Dioddefwyr, pob un ar gael ar ein gwefan (www.cps.gov.uk) neu o wneud cais.
[11] Er cyfleustra, cyfeiriwn atyn nhw fel Swyddogion Gofal Tystion drwy'r safonau hyn. Dylid nodi bod gofal tystion yn cael ei ddarparu mewn partneriaeth gydag Unedau Gofal Tystion sy'n cael eu staffio gan yr heddlu a phersonel CPS.

wedi'u cyflawni. Hefyd, maen nhw'n gwirio a ydy dioddefwr wedi, neu'n dymuno gwneud, Datganiad Personol Dioddefwr i'w ddarllen i'r llys os bydd y diffynnydd yn pledio'n euog neu'n cael ei euogfarnu. Dylid nodi bod gofal tystion yn cael ei ddarparu mewn partneriaeth gydag Unedau Gofal Tystion sy'n cael eu staffio gan yr heddlu a phersonel y CPS.

8.2 Pan fydd diffynnydd yn pledio'n ddieuog, bydd Swyddog Gofal Tystion:

a yn hysbysu tystion sy'n gorfod rhoi tystiolaeth fyw o ddyddiad y treial o fewn cyfnod amser caeth i dderbyn y wybodaeth hon oddi wrth wasanaeth yr erlyniad;
b yn cynnig asesiad anghenion llawn i dystion y disgwylir iddyn nhw fynychu llys, yn dilyn ple dieuog. Mae hyn yn rhoi cyfle i drafod eu pryderon am fynychu llys, gan gynnwys, er enghraifft, help gyda gofal plant a phroblemau teithio. Mae hefyd yn galluogi Swyddog Gofal Tystion i ymchwilio gyda'r tystion i weld a oes unrhyw ddychryn neu angen am fesurau arbennig i'w galluogi i roi eu tystiolaeth yn effeithlon;
c yn gwneud trefniadau arbennig ar gyfer tystion anabl, tystion â chyflyrau meddygol a'r rhai sydd angen cymhorthion cyfathrebu fel cyfieithydd, gan ofyn am ganiatâd y llys pan fydd angen;
d yn cyfeirio tyst at asiantaeth arall, pan fydd hynny'n briodol, fel grŵp cymorth perthnasol sy'n cynnig mwy o help penodol, pwrpasol;
e yn rhoi cyfle i dystion ymweld â'r llys cyn dyddiad y treial i'w helpu i ddeall proses y llys yn well ac i wneud iddyn nhw deimlo'n fwy cartrefol ar ddiwrnod y treial; ac
f yn rhoi tystion mewn cysylltiad â'r Gwasanaeth Tystion, sy'n fudiad gwirfoddol i roi cefnogaeth ymarferol ac emosiynol yn y cyfnod cyn y treial, ar ddiwrnod y treial ac, mewn achosion priodol, ar ôl hynny. Gall rhywfaint o'r gefnogaeth hon gael ei darparu gan Gefnogaeth i Ddioddefwyr yn lle hynny.

8.3 Mae Swyddogion Gofal Tystion yn cyflawni swyddogaethau tebyg pan fydd angen i dyst fynychu llys uwch ar gyfer gwrandawiad apêl.

8.4 Pan fydd achos wedi'i gwblhau, mae Swyddog Gofal Tystion yn hysbysu dioddefwyr a thystion am y deilliant yn y modd y byddan nhw'n dymuno o fewn diwrnod gwaith i dderbyn y canlyniad o'r llys. Maen nhw'n gofyn iddyn nhw hefyd os ydyn nhw angen help gan unrhyw wasanaeth cymorth perthnasol.

8.5 Mewn achosion priodol, mae erlynwyr yn cynnig cyfarfod tystion yn bersonol i asesu eu hangen am fesurau arbennig.

8.6 Mewn achos difrifol, rydyn ni'n gofyn i'r llys am ganiatâd i atal enw tyst lle gellir cyfiawnhau hyn.

8.7 Mewn achosion sy'n cynnwys marwolaeth, mae erlynwyr yn cynnig cyfarfod teulu'r dioddefwr o gyfnod cynnar i egluro sut byddan nhw'n

ymdrin â'r achos a'r hyn a ddisgwylir i ddigwydd ym mhob gwrandawiad llys[12].

8.8 Mae rheolwyr Unedau Gofal Tystion, neu eu staff, yn ymgynghori â grwpiau yn y gymuned yn rheolaidd i wella eu dealltwriaeth o'r heriau sy'n wynebu tystion yn eu hardal.

Safon 9: Byddwn yn egluro ein penderfyniadau i ddioddefwyr pan fyddwn ni'n atal achos neu'n newid y cyhuddiad yn sylweddol

Egluro ein penderfyniadau i ddioddefwyr

9.1 Mae erlynydd sy'n penderfynu atal achos neu wneud unrhyw newid sylweddol i'r cyhuddiadau sy'n wynebu'r diffynnydd, yn ysgrifennu at y dioddefwr o fewn terfyn amser caeth i egluro'r rhesymau am ei benderfyniad/phenderfyniad. Dylid ysgrifennu'r llythyr mewn modd sy'n cyflawni anghenion y dioddefwr ac amgylchiadau penodol yr achos.

9.2 Ar gyfer dioddefwyr bregus neu ofnus, mae'r erlynydd yn ceisio siarad â nhw wyneb yn wyneb neu dros y ffôn ar y diwrnod pan wneir y penderfyniad, cyn ysgrifennu atyn nhw.

9.3 Mae erlynyddion yn cynnig cyfarfod dioddefwyr rhai troseddau penodol yn bersonol i ateb eu cwestiynau am ein heglurhad ysgrifenedig.

9.4 Mae egwyddorion tebyg yn gymwys mewn achosion sensitif neu gymhleth pan fyddwn ni'n penderfynu peidio ag awdurdodi'r heddlu neu ymchwiliwr arall i gyhuddo person a ddrwgdybir, er yn y mwyafrif o achosion mae'r heddlu'n darparu'r eglurhad gwreiddiol ac yn gofyn i'r achwynwr os byddai'n hoffi cael eglurhad manylach gan yr erlynydd.

Safon 10: Byddwn yn cynorthwyo'r llys yn y broses ddedfrydu ac yn ceisio atafaelu elw'r drosedd[13]

10.1 Cyfrifoldeb y llys yw dedfrydu. Rôl yr erlyniad wrth ddedfrydu yw cynorthwyo'r llys yn y broses ddedfrydu drwy ei wneud yn ymwybodol o'r holl wybodaeth berthnasol.

10.2 Cyn y gwrandawiad dedfrydu:

a rydyn ni'n rhoi crynodeb o'r achos i'r Gwasanaeth Prawf neu i'r Tîm Troseddau Ieuenctid er mwyn iddyn nhw allu paratoi adroddiad cyn-dedfrydu realistig ar gyfer y llys.

[12] Gelwir hyn yn gynllun Ffocws Dioddefwyr. Mae mwy o fanylion ar gael ar ein gwefan (www.cps.gov.uk) neu o wneud cais.

[13] Mae *The Attorney General's Guidelines on The Acceptance of Pleas and the Prosecutor's- Role in the Sentencing Process* yn rhoi canllawiau manwl i lysoedd, erlynwyr, cyfreithwyr yr amddiffyniad a'r cyhoedd. Mae ar gael o wneud cais neu ar ein gwefan, www.cps.gov.uk

b bydd Swyddog Gofal Tystion yn gofyn neu'n trefnu i swyddog yr heddlu neu ymchwiliwr arall ofyn i'r dioddefwyr os ydyn nhw'n dymuno gwneud Datganiad Personol Dioddefwr neu ddiweddaru un blaenorol;
c mewn achosion lle mae materion dedfrydu'n debygol o fod yn gymhleth neu'n anghyfarwydd, neu lle mae'r llys yn gofyn i ni wneud hynny, rydyn ni'n paratoi cyflwyniadau ysgrifenedig i'r llys yn amlinellu'r darpariaethau a'r canllawiau dedfrydu perthnasol, unrhyw orchmynion atodol sydd ar gael ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall nad sy'n hysbys i'r llys eto; a
d a phan fydd angen, rydyn ni'n paratoi ceisiadau ysgrifenedig am unrhyw orchmynion atodol priodol fel Gorchmynion Ymddygiad Gwrth-gymdeithasol neu Orchmynion Ataliol.

10.3 Yn y gwrandawiad, bydd yr eiriolwr:

a yn amlinellu ffeithiau'r achos i'r llys, gan dynnu sylw at unrhyw nodweddion poenus y drosedd ac unrhyw nodweddion lliniarol sy'n amlwg o dystiolaeth yr erlyniad;
b pan fydd hynny'n briodol, yn rhoi rhestr o droseddau eraill i'r llys y mae'r diffynnydd yn dymuno i'r llys eu hystyried er mwyn iddo allu eu hadlewyrchu yn y ddedfryd;[14]
c yn hysbysu'r llys am unrhyw euogfarnau blaenorol, rhybuddion syml neu rybuddion amodol a gofnodwyd yn erbyn y diffynnydd, yn arbennig y rhai sydd am droseddau tebyg;
d yn hysbysu'r llys am ganlyniadau unrhyw brawf cyffuriau a gynhaliwyd yng ngorsaf yr heddlu; ac yn
e gwirio a ydy'r adroddiad cyn-dedfrydu wedi'i seilio ar asesiad cywir o'r dystiolaeth.

10.4 Mae'r eiriolwr hefyd yn tynnu sylw at effaith ymddygiad y troseddwr:

a trwy gyflwyno Datganiad Personol Dioddefwr i'r llys, pan fydd un ar gael;
b a phan fydd yn briodol, yn gofyn i'r llys orchymyn i'r troseddwr dalu iawndal i'r dioddefwr.

10.5 Mae'r eiriolwr yn sicrhau bod y llys yn ystyried ystod lawn yr opsiynau dedfrydu sydd ar gael iddo drwy wneud y canlynol:

a gofyn i'r llys ystyried gorchmynion atodol y gellir eu gwneud yn erbyn y diffynnydd i leihau'r siawns o droseddu yn y dyfodol neu i amddiffyn dioddefwr rhag troseddu yn y dyfodol. Mae'r rhain yn cynnwys Gorchmynion Ymddygiad Gwrth-gymdeithasol, Gorchmynion Ataliol, gwaharddiadau gyrru a Gorchmynion Atal Troseddau Rhywiol;

[14] Pan fydd y diffynnydd yn gwrthod cyfaddef mewn llys i drosedd yr oedd wedi'i nodi ynghynt y byddai'n gofyn i'r llys ei hystyried - bydd erlynwyr yn ystyried a ddylai gael ei gyhuddo o hon gan egluro i eiriolwr y diffynnydd efallai y dylid adolygu'r drosedd ymhellach.

b herio unrhyw liniaru amddiffyniad amhriodol sy'n sarhaus i gymeriad dioddefwr, yn ffals neu'n amherthnasol i ystyriaethau dedfrydu cywir;
c gofyn i'r llys ystyried gorchymyn dinistrio unrhyw eitemau fel cyffuriau neu arfau sydd wedi bod dan reolaeth y diffynnydd neu a ddefnyddiwyd yn y drosedd;
d a chynorthwyo'r llys yn gyffredinol gyda'r broses ddedfrydu, gan dynnu sylw'r llys at unrhyw ganllawiau dedfrydu perthnasol ac achosion canllawiau gan gynnwys dangos yr amgylchiadau fel Trosedd Casineb, lle mae'r ddeddf yn mynnu bod y llys yn cyhoeddi unrhyw gynnydd mewn dedfryd mae wedi'i osod o ganlyniad.

10.6 Hefyd, mae'r eiriolwr yn gofyn i'r llys orchymyn i'r diffynnydd dalu holl gostau'r achos llys neu ran o'r costau.

10.7 Nid oes gan yr erlyniad bŵer i apelio yn erbyn dedfrydau. Ond mewn ystod cyfyngedig o achosion Llys y Goron, gall y Twrnai Cyffredinol gyfeirio'r ddedfryd i'r Llys Apêl fel un ormodol drugarog. Gynted ag sy'n bosibl ar ôl y ddedfryd, byddwn yn penderfynu a ddylid gofyn i'r Twrnai Cyffredinol wneud hynny. Gall y Twrnai Cyffredinol hefyd ystyried cyfeirio yn ôl ei doethineb ei hun neu ar gais y dioddefwr neu aelod o'r cyhoedd. **Rhaid** i'r Twrnai Cyffredinol gyfeirio'r ddedfryd o fewn 28 diwrnod i'r ddedfryd.

10.8 Mae Swyddog Gofal Tystion yn hysbysu unrhyw ddioddefwr a thystion y drosedd am y ddedfryd a roddwyd gan y llys o fewn cyfnod byr gan gynnwys eglurhad mewn iaith syml o ystyr y ddedfryd.

Atafaelu elw'r drosedd

10.9 Pan fydd person a ddrwgdybir neu ddiffynnydd mewn rhai achosion yn ymddangos ei fod wedi elwa o'i drosedd/throsedd, a bod perygl y bydd ef/hi'n defnyddio neu'n gwaredu'r asedau, byddwn yn gofyn i farnwr osod Gorchymyn Ataliol o fewn cyfnod byr i gais gan yr heddlu neu ymchwiliwr arall, er mwyn atal y diffynnydd rhag eu defnyddio neu eu gwaredu. Byddwn hefyd yn cynghori'r heddlu neu ymchwilwyr eraill pan fyddwn ni'n ystyried y gallai Gorchymyn Ataliol fod yn briodol. Gynted ag sy'n bosibl ar ôl rhoi'r Gorchymyn, byddwn yn anfon copi ohono at sefydliadau perthnasol fel banciau a chymdeithasau adeiladu sydd mewn sefyllfa i atal y person a ddrwgdybir neu'r diffynnydd rhag defnyddio ei asedau. Gorfodir y gorchmynion gyda phartneriaid CJS eraill gan gynnwys yr Heddlu a gwasanaeth y llysoedd.

10.10 Rydyn ni'n ystyried a allai achosion eraill a dderbyniwyd oddi wrth yr heddlu neu ymchwiliwr arall fod yn addas ar gyfer atafaelu elw trosedd y diffynnydd. Os bydd achos yn ymddangos yn addas, byddwn yn gofyn i'r heddlu neu ymchwiliwr arall ar unwaith i ddarganfod a oes ganddo/ganddi ddigon o asedau i gyfiawnhau gofyn i'r llys eu hatafaelu.

10.11 Pan fydd diffynnydd yn derbyn euogfarn, a'i bod yn ymddangos yn briodol i ofyn am atafaelu elw ei drosedd/throsedd, gofynnwn i'r llys osod amserlen ar gyfer yr atafaelu. Gall hyn weithiau ddigwydd fisoedd lawer ar ôl y ddedfryd.

10.12 Gynted ag sy'n bosibl ar ôl trefnu amserlen, gofynnwn i'r heddlu neu ymchwiliwr arall gwblhau eu hymholiadau i sefyllfa ariannol ac eiddo'r diffynnydd.

10.13 Cyn y gwrandawiad atafaelu, byddwn yn anfon rhestr o'r asedau a ddarganfuwyd at y llys ac at y diffynnydd er mwyn i'r llys allu penderfynu ar unrhyw ddadleuon am eu perchnogaeth neu eu gwerth. Gofynnwn i'r llys benderfynu faint ddylai'r diffynnydd ei dalu.

10.14 Er bod staff y llys yn gyfrifol am gasglu'r swm a atafaelwyd mewn rhai achosion, byddwn yn gwneud y gwaith hwn mewn achosion anos; er enghraifft, lle mae'n rhaid gwerthu eiddo i godi arian. Gall hyn olygu penodi Derbynnydd.

10.15 Rydyn ni'n defnyddio ein pwerau i fynd ag achosion yn ôl i'r llys pan fydd y troseddwr yn ceisio oedi neu osgoi talu.

Safon 11: Byddwn yn gweithredu ein hawl i apelio pan fyddwn ni'n credu bod y llys wedi gwneud y penderfyniad cyfreithiol anghywir

11.1 Mae gan yr erlyniad hawliau apêl cyfyngedig. Rydyn ni'n penderfynu a ddylid apelio yn erbyn penderfyniadau'r llys o dan yr amgylchiadau canlynol:

a ar unwaith, mewn achosion difrifol lle mae ynadon yn caniatáu mechnïaeth a'n bod ni'n ystyried y dylid cadw'r diffynnydd yn y ddalfa i ddisgwyl ail ystyried mechnïaeth gan farnwr Llys y Goron;
b o fewn 24 awr, gyda chymeradwyaeth Prif Erlynydd y Goron neu Bennaeth Adran berthnasol y Pencadlys, lle mae barnwr yn atal achos cyn i'r rheithgor gael cyfle i ystyried y dystiolaeth fel bod yr achos yn gallu cael ei ail ystyried gan Lys Apêl gynted ag sy'n bosibl;
c o fewn 28 diwrnod yn yr ystod cyfyngedig o achosion lle gallwn ofyn i'r Twrnai Cyffredinol gyfeirio dedfryd at y Llys Apêl fel un a allai fod yn rhy drugarog. Pan fydd rhywun â diddordeb mewn achos yn cysylltu â ni i ddweud eu bod yn credu bod y ddedfryd yn rhy drugarog, byddwn yn cyfeirio'r achos at y Twrnai Cyffredinol neu os byddwn ni'n ystyried nad yw'n rhy drugarog, yn hysbysu'r person oedd yn cysylltu â ni am eu hawl i gwyno i'r Twrnai Cyffredinol yn uniongyrchol. Rydyn ni hefyd yn hysbysu'r dioddefwr neu ei deulu/theulu am ei hawl i ofyn i'r Twrnai Cyffredinol gyfeirio'r ddedfryd i'r Llys Apêl;
d o fewn 21 diwrnod, os bydd ynadon neu farnwr Llys y Goron mewn achos heb reithgor yn gwneud yr hyn a ystyrir yn benderfyniad

cyfreithiol anghywir (drwy ofyn i'r llys nodi'r rhesymau dros eu penderfyniad er mwyn i'r Uchel Lys eu hystyried); neu

e o fewn tri mis, i ofyn i'r Llys Gweinyddu adolygu penderfyniad llys ynadon neu farnwr Llys y Goron mewn achos heb reithgor neu rai amgylchiadau eraill, a ystyriwn sy'n methu â chydymffurfio â'r egwyddorion a osodwyd gan y Senedd neu lysoedd uwch a bod y penderfyniad yn debygol o gael ei osod o'r neilltu gan y Llys Gweinyddu.

11.2 Mae gan ddiffynyddion hawliau apêl ehangach. Rydyn ni'n pennu eiriolwr i'n cynrychioli neu i gynorthwyo'r llys, heblaw mewn apeliadau yn erbyn dedfrydau yn y Llys Apêl lle byddwn ni'n ymddangos dim ond os bydd y llys yn gofyn yn benodol am ein help neu fod yr achos yn debygol o godi materion o bwysigrwydd cyffredinol.

11.3 Hefyd, rydyn ni'n gofyn i'r Twrnai Cyffredinol ystyried achosion lle mae angen i'r Llys Apêl egluro'r ddeddf yn dilyn rhyddfarniad yn Llys y Goron.

11.4 Pan fydd y Llys Apêl wedi gwneud penderfyniad a'n bod yn dymuno apelio ymhellach yn erbyn y penderfyniad, rydyn ni'n penderfynu a ddylid gofyn i'r Llys Apêl neu'r Goruchaf Lys sicrhau bod pwynt o bwysigrwydd i'r cyhoedd yn yr achos y dylid ei benderfynu gan y Goruchaf Lys. Byddwn ni hefyd yn ymddangos yn y Goruchaf Lys i'w gynorthwyo i benderfynu ar achosion a ddygwyd ger ei fron gan ddiffynnydd.

11.5 Byddwn yn hysbysu'r dioddefwyr yn gyson am gynnydd unrhyw apêl ac yn egluro effaith penderfyniad y llys iddyn nhw.

Safon 12: Byddwn yn delio'n brydlon ac yn agored gyda chwynion am ein penderfyniadau a'r gwasanaeth a ddarperir gennym

12.1 Ein nod yw delio â chwynion am safon y gwasanaeth a ddarperir gennym gynted ag sy'n bosibl.

12.2 Os gallwn ni ddatrys achos yr anfodlonrwydd ar unwaith, byddwn yn gwneud hynny; os na, cofnodir y cwyn yn ffurfiol ac yna byddwn yn delio ag ef fesul cam, i ddechrau ar lefel leol.

12.3 Byddwn yn cofnodi ac yn cydnabod cwynion ar bob cam gynted ag sy'n bosibl ac yn darparu ymateb llawn gynted ag sy'n bosibl o fewn terfyn amser caeth cyffredinol.

12.4 Gwrthodwn ddelio â chwynion a wneir mwy na 12 mis ar ôl y digwyddiadau perthnasol heblaw bod rheswm da dros yr oedi.

12.5 Rydyn ni'n ateb cwynion yn agored ac yn ddidwyll, gan osgoi jargon neu iaith dechnegol, yn darparu ymateb cynhwysfawr sy'n delio â'r holl

broblemau materol. Pan fydd yn briodol, cydnabyddwn ddiffyg a byddwn yn ymddiheuro. Hefyd, byddwn yn amlinellu unrhyw wersi a ddysgwyd ac unrhyw gamau sy'n cael eu cymryd i atal iddo ddigwydd eto.

12.6 Pan fydd y cwyn yn codi materion yn ymwneud ag asiantaeth arall, fel yr heddlu neu'r llysoedd, ceisiwn gytuno ar ein hymateb gyda'r asiantaeth dan sylw, neu gytuno gyda nhw y byddan nhw'n ymateb yn uniongyrchol i'r pwyntiau perthnasol.